Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

# CANLLAWIAU'R

# CYNLLUN DEISEBAU



RHONDDA CYNON TAF

## CYFLWYNIAD

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi dyletswydd ar Brif Gyngor i lunio Cynllun Deisebau a'i gyhoeddi, gan nodi sut mae'r Cygnor yn bwriadu delio â deisebau ac ymateb iddyn nhw (gan gynnwys deisebau electronig).

Yn unol â'r ddeddfwriaeth, bydd Cynllun Deisebau'r Cyngor yn rhoi manylion am y canlynol i chi:

i. sut mae modd cyflwyno deiseb i'r Cyngor;

ii. sut ac erbyn pryd y bydd y Cyngor yn cydnabod derbyn deiseb;

iii. y camau y mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn eu cymryd mewn ymateb i dderbyn deiseb;

iv. yr amgylchiadau (os bydd rhai) lle mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn peidio â chymryd unrhyw gamau gweithredu pellach mewn ymateb i ddeiseb;

v. sut ac erbyn pryd y bydd y Cyngor yn cyhoeddi ei ymateb i ddeiseb, a hynny at sylw'r person a gyflwynodd y ddeiseb ac at sylw'r cyhoedd.

Cafodd Cynllun Deisebau'r Cyngor ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 25 Hydref 2023 a bydd yn cael ei adolygu gan y Cyngor pan fo'n briodol er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben.

Nodwch y bydd deiseb mewn perthynas â phenderfyniadau rheoleiddio, megis penderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio neu'r Pwyllgor Trwyddedu, yn cael ei derbyn a'i hystyried yn rhan o broses ar wahân.

Hefyd, bydd unrhyw ddeiseb sy'n dod i law mewn perthynas â mater sy'n destun ymgynghoriad statudol, neu broses ymgynghori gyhoeddus i lywio penderfyniad yn y dyfodol, yn cael ei derbyn a'i chyflwyno i'r rhai a fydd yn gwneud y penderfyniad, yn rhan o'r trefniadau hynny. Er enghraifft, cynnig i ad-drefnu ysgol, lle mae trefniadau ymgynghori wedi'u nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion,  neu ymgynghoriad cyhoeddus i lywio penderfyniad y Cabinet yn y dyfodol mewn perthynas â newid i wasanaeth.

Anfonwch unrhyw gwestiynau sydd gyda chi am Gynllun Deisebau'r Cyngor i: Pencadlys CBS RhCT, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf, Pontypridd neu e-bostiwch: BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk

## CANLLAWIAU I'CH HELPU I GYFLWYNO DEISEB I GYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cyn cyflwyno deiseb, anogir trigolion i wneud y canlynol:

a) Cysylltu â'r Cyngor i gael gwybod a fyddai cais am wasanaeth arferol yn datrys y broblem.
https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/Resident.aspx
https://www.rctcbc.gov.uk/RhoiGwybod

b) Cysylltu â Chynghorydd/Cynghorwyr ward perthnasol i ofyn am help.
Eich Cynghorwyr - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (moderngov.co.uk)

## BETH YW DEISEB?

Mae deiseb yn ddogfen (electronig neu bapur) sy'n cynnwys manylion problemau sy'n bwysig i gymunedau Rhondda Cynon Taf, wedi'i llofnodi gan etholwyr lleol sydd o blaid y camau gweithredu arfaethedig. Cyfeirir at ddeisebau electronig fel e-Ddeisebau yn y canllawiau yma.

Mae'n hanfodol bod unrhyw ddeiseb ar unrhyw ffurf sy'n cael ei chyflwyno i'r Cyngor yn ymwneud â rhywbeth y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano neu y mae'r Cyngor yn dylanwadu'n uniongyrchol arno. Os bydd y Cyngor yn derbyn deiseb nad yw'n ymwneud â rhywbeth y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano neu'n dylanwadu'n uniongyrchol arno, bydd yn cael ei dychwelyd gydag esboniad yn nodi pam nad oes modd i'r Cyngor fwrw ymlaen â'r mater ymhellach.

Bydd gyda chi gyfle i ddiwygio ac ailgyflwyno'ch deiseb. Fel arall, bydd crynodeb o'r ddeiseb a'r rheswm dros ei gwrthod yn cael eu cyhoeddi o dan adran 'Deisebau wedi'u gwrthod' ar y wefan.

Rhaid i ddeisebau gael eu cyflwyno'n ddidwyll, gyda gonestrwydd a pharch. Yn ystod cyfnodau sensitif o safbwynt gwleidyddol, megis cyn etholiad, mae'n bosibl y cyfyngir ar gynnwys dadleuol o safbwynt gwleidyddol. Does gan y Cyngor ddim cyfrifoldeb am gynnwys y deisebau ar ei wefan, a dydy'r safbwyntiau a fynegir yn y deisebau hynny ddim o reidrwydd yn cyd-fynd â rhai'r Cyngor.

## PWY SY'N GALLU CYFLWYNO DEISEB?

Gall unrhyw un yn y Fwrdeistref Sirol greu deiseb ac mae canllaw creu deiseb i'w weld isod.

***Rhaid*** i ddeiseb ddilys gynnwys y meini prawf canlynol:

- **Prif ddeisebydd** (y person sy'n creu'r ddeiseb yn y lle cyntaf)
- **Datganiad clir a chryno o'r pryder**. Rhaid i'r geiriad fod yn llawn ar bob tudalen lle mae llofnodion. Bydd y ddeiseb yn cael ei dychwelyd os nad yw'r geiriad yn glir.
- Manylion unrhyw **gamau gweithredu dilynol** y dymunir i'r Cyngor eu cynnig ar ôl derbyn y ddeiseb;
- **Llofnodwyr** - Gall pobl o bob oedran lofnodi deiseb ond **rhaid i'r bobl yma fyw yn y** Fwrdeistref Sirol. Felly dylai'r ddeiseb gynnwys enwau, cyfeiriadau, codau post a chyfeiriadau e-bost dilys pobl sy'n llofnodi'r ddeiseb.
- Yn unol ag arfer safonol, bydd deiseb wedi'i chreu ar lwyfan e-Ddeisebau y Cyngor yn parhau i fod ar agor am 42 diwrnod. Os oes angen amserlen wahanol, cysylltwch â'r Cyngor gan ddefnyddio'r manylion uchod.

### PRIF DDEISEBYDD

Mae angen nodi enw a manylion cyswllt y person a ddechreuodd y ddeiseb (y Prif Ddeisebydd), er mwyn i'r Cyngor a'r Prif Ddeisebydd gysylltu â'i gilydd. Dim ond y Prif Ddeisebydd y bydd y Cyngor yn cysylltu â fe mewn perthynas â'r ddeiseb. Fydd manylion cyswllt y Prif Ddeisebydd ddim yn cael eu rhoi ar y wefan.

Os nad oes Prif Ddeisebydd wedi'i nodi ar ddeiseb bapur sy'n dod i law, bydd y Cyngor yn cysylltu (lle bydd modd) â phobl sydd wedi llofnodi'r ddeiseb er mwyn cytuno ar berson a ddylai fod yn Brif Ddeisebydd.

## CREU DEISEB

### DEISEBAU PAPUR

Mae atodiad 1 y ddogfen yma'n darparu templed deiseb bapur ddwyieithog.

Fel arall, mae copïau o dempledi ar gael ar gais o Bencadlys y Cyngor (codir ffi am argraffu).

Bydd y Cyngor yn derbyn fersiwn hybrid o ddeiseb – yr un ddeiseb ar bapur ac yn electronig, er mwyn i ddeiseb fod yn hygyrch i bawb.

Mae modd i'r Cyngor dderbyn deisebau papur wedi'u llenwi naill ai drwy'r post neu drwy eu rhoi i ni wyneb yn wyneb ym Mhencadlys y Cyngor (cyfeiriad wedi'i nodi ar dudalen 2 y ddogfen yma).

Fel arall, mae modd rhoi deiseb i'ch Aelod Etholedig lleol er mwyn iddo ei chyflwyno i gyfarfod y Cyngor ar eich rhan.

Mae modd creu deiseb yn yr iaith o ddewis y Prif Ddeisebydd. O ran deisebau sydd wedi'u creu ar-lein trwy wefan y Cyngor, bydd fersiwn o'r ddeiseb yn cael ei rhoi ar ochr Gymraeg a Saesneg y wefan, yn unol â Safonau Cymraeg y Cyngor. Fydd argaeledd cyfieithiad y ddeiseb ddim yn oedi cyhoeddi'ch deiseb ar dudalen we'r Cyngor.

Os bydd deiseb hybrid yn dod i law (deiseb bapur ac electronig), bydd dogfen pdf yn amlinellu nifer y llofnodwyr ar y fersiwn bapur yn cael ei hatodi i'r ddeiseb electronig er mwyn rhoi darlun clir a thryloyw o'r ddeiseb.

**E-DDEISEBAU**

Mae gan wefan y Cyngor dudalen er mwyn i Brif Ddeisebwyr greu deiseb yn y fformat sydd ei angen gan y Cyngor. Mae'r dudalen yma'n ddwyieithog ac mae modd ei chyrchu ar ochr Gymraeg a Saesneg y wefan.

Gweler dolen i'r tudalennau yma.

Fel arall, ewch i adran 'Y Cyngor' ar y wefan a dewiswch opsiwn Pwyllgorau a Chyfarfodydd. Mae modd gweld tab o'r enw 'e-Ddeisebau' yn y rhestr ar y dde.

Mae nifer o opsiynau ar gael ar y dudalen Deisebau:

- Cyflwyno eDdeiseb newydd
- Pori trwy'r holl e-ddeisebau cyfredol a'r rhai sydd wedi'u cwblhau
- Tanysgrifio i ddiweddariadau RSS

> **Nodwch fod rhaid i'r Prif Ddeisebydd greu cyfrif ar wefan y Cyngor, neu fewngofnodi i'r cyfrif os oes un yn bodoli eisoes, er mwyn creu / cyflwyno deiseb.** Mae'r broses gofrestru yma'n rhoi cyfle i chi gyrchu'r system a chreu deiseb. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ni wirio manylion yr unigolion hynny sy'n creu ac yn llofnodi deiseb, megis sicrhau bod trigolion yn byw yn y Fwrdeistref Sirol. Mae swyddogaethau pellach (megis derbyn negeseuon a diweddariadau) ar gael ar wefan y Cyngor ar ôl cofrestru, ond dim ond ***os ydych chi'n dewis*** derbyn negeseuon o'r fath)

Mae rhagor o fanylion mewn perthynas â chofrestru i'w gweld trwy glicio ar y ddolen yma.


Os ydych chi wedi cofrestru o'r blaen, nodwch eich enw defnyddiwr a chyfrinair:

- Eich enw defnyddiwr yw'ch cyfeiriad e-bost
- Cyfrinair – Gofynnwyd i chi gyflwyno cyfrinair yn rhan o'r broses gofrestru wreiddiol. Os ydych chi wedi'i anghofio, cliciwch ar 'A ydych wedi anghofio eich cyfrinair?' er mwyn dewis cyfrinair newydd.

## COFRESTRU CYFRIF AR WEFAN Y CYNGOR

Os nad ydych chi wedi cofrestru o'r blaen, cliciwch ar y ddolen '***Cofrestru fel defnyddiwr newydd'.***

Bydd gofyn i chi gwblhau proses gofrestru fer, a nodi manylion megis enw a chyfeiriad e-bost dilys.



Cofrestru fel defnyddiwr newydd

I gofrestru llenwch y ffurflen hon a chlicio Cofrestru

Rhaid i'ch cyfrinair gynnwys wyth neu fwy o nodau, gan gynnwys o leiaf un digid. Mae meysydd wedi'u nodi gyda '*' yn ofynnol.

*Enw cyntaf: Rhowch enw cyntaf

*Enw Olaf: Rhowch enw olaf

*Eich E-bost: Rhowch gyfeiriad e-bost

Rhaid i'ch cyfrinair gynnwys o leiaf wyth nod, gan gynnwys o leiaf un rhif ac o leiaf un briflythyren.

*Eich Cyfrinair:

*Cadarnhau'r Cyfrinair:

*Cyfeiriad llinell 1: Rhowch gyfeiriad

Address line 2 Parhau â'r cyfeiriad os oes angen

*Tref: Rhowch y dref

*Sir: Rhowch sir

*Cod Post: Rhowch y cod post

Ticiwch unrhyw rai sy'n berthnasol i chi

Rwy'n byw yn yr ardal leol

Rwy'n gweithio yn yr ardal leol

Rwy'n astudio yn yr ardal leol

Ticiwch yma os hoffech chi dderbyn e-byst mewn testun plaen.

Cofrestru


Calendr cyfarfodydd
Pwyllgorau
e-Ddeisebau
Cyfarfodydd
Cyrff allanol
Dogfennau Chwilio
Eich cynghorwyr
Cynghorau Cymunedol
Eich ACau
Eich ASau
Eich ASau Ewropeaidd
Beth sy'n newydd
Ystadegau
Gwaith i'w wneud
Logon

## I GREU DEISEB

Bydd y dudalen yn gofyn y canlynol '***Mewngofnodi i gyflwyno e-Ddeiseb***'.


Ar ôl i chi nodi'r manylion yma, cliciwch ar ‘***Mewngofnodi’***.

- Cyflwyno e-Ddeiseb – Bydd gofyn i'r Prif Ddeisebydd nodi teitl ar gyfer y ddeiseb (does dim cyfyngiad o ran nifer y geiriau).





Unwaith eich bod chi'n hapus gyda'r teitl, cliciwch ar '***Parhau***'.

**Deisebau Tebyg** - Nodwch, os oes deiseb gyda theitl tebyg yn bodoli eisoes, bydd y system yn tynnu sylw at y deisebau yma ac yn gofyn i chi wirio nad ydych chi'n cyflwyno'r un ddeiseb.   Os ydych chi'n credu bod eich deiseb yn eitem newydd, cliciwch ar 'Parhau' ac ewch drwy gamau nesaf y broses.




**Gofyn am e-Ddeiseb** - Mae'r dudalen yma'n rhoi cyfle i'r Prif Ddeisebydd nodi rhagor o fanylion mewn perthynas â'r ddeiseb. Dylid nodi'r datganiad o bryder yma, ynghyd â'r camau gweithredu dilynol sydd eu hangen. (Does dim cyfyngiad o ran nifer y nodau yn y blwch testun yma).




Ar ôl i chi orffen eich cynnwys, cliciwch ar ‘Gorffen’.

Ar ôl gorffen byddwch chi'n derbyn e-bost yn cadarnhau cyflwyno'ch deiseb.

Mae modd cyflwyno e-Ddeisebau wedi'u creu ar wefannau eraill ar yr amod eu bod nhw'n bodloni meini prawf e-Ddeisebau'r Cyngor.

# CAMAU NESAF

## CYMERADWYO'CH E-DDEISEB

Ar ôl derbyn eich cais i gyflwyno e-Ddeiseb, bydd carfan Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor yn ystyried y gofynion canlynol er mwyn sicrhau:

- Nad yw'r ddeiseb yr un peth â deiseb fyw bresennol sydd wedi'i chyflwyno mewn perthynas â'r un mater.
- Nad yw'r ddeiseb yn ailadrodd deiseb sydd wedi dod i law o fewn y chwe mis diwethaf, pa un a yw'r Prif Ddeisebydd yr un person yn y ddau achos.
- Bod y ddeiseb yn cynnwys datganiad clir o gamau gweithredu.
- Bod y datganiad a'r camau gweithredu gofynnol yn dod o dan reolaeth / cyfrifoldeb y Cyngor.
- Nad yw'r ddeiseb yn cynnwys iaith sarhaus, anghymedrol neu iaith sy'n pryfocio. Mae hyn yn cynnwys rhegfeydd a sylwadau cas amlwg, ac unrhyw iaith y byddai person rhesymol yn ei hystyried yn sarhaus.
- Nad yw'r ddeiseb yn cynnwys datganiadau anghywir posibl neu ddatganiadau difenwol posibl.
- Nad yw'r ddeiseb yn cyfeirio at achos sydd yn llysoedd y DU ar hyn o bryd.
- Nad yw'r ddeiseb yn cynnwys deunyddiau y gwaherddir eu cyhoeddi trwy orchymyn llys neu gorff neu berson sydd â phŵer tebyg.
- Nad yw'r ddeiseb yn cyhuddo person neu sefydliad y mae modd ei adnabod o drosedd.
- Nad yw'r ddeiseb yn cynnwys deunyddiau a allai fod yn gyfrinachol neu'n sensitif yn fasnachol.
- Nad yw'r ddeiseb yn gallu achosi trallod neu golled bersonol.
- Nad yw'r ddeiseb yn enwi swyddogion neu aelodau unigol o'r Cyngor.
- Na fyddai angen amser, arian neu ymdrech anghymesur i baratoi'r ateb.
- Nad yw'r ddeiseb yn enwi aelodau teuluoedd cynrychiolwyr etholedig na swyddogion y Cyngor.
- Nad yw'r ddeiseb yn hysbyseb, yn sbam nac yn hyrwyddo nwyddau neu wasanaeth penodol.
- Nad yw cynnwys y ddeiseb yn wirion nac yn jôc;
- Nad yw'r ddeiseb yn ymwneud â mater na fyddai deiseb yn briodol ar ei gyfer. Mae hynny'n cynnwys: gohebiaeth am fater personol a deisebau sy'n gofyn am roi swydd i rywun, sy'n gofyn am ddiswyddo rhywun neu'n gofyn i rywun ymddiswyddo, neu sy'n gofyn am bleidlais o ddiffyg hyder.

- Nad yw'r ddeiseb yn ymwneud â phroses ymgynghori statudol neu benderfyniad sy'n destun proses ymgynghori gyhoeddus. (Bydd deiseb sy'n ymwneud â mater o'r fath yn cael ei derbyn a'i hystyried yn rhan o'r trefniadau hynny, a'i chyflwyno i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn llywio penderfyniadau o'r fath).
- Bod y ddeiseb, yn y bôn, yn gais am ryddid gwybodaeth, yn sylw, yn gwyn neu'n ganmoliaeth. Bydd “deisebau” o'r fath yn cael eu hanfon i'r gwasanaeth priodol i gael ymateb addas.

Os bydd angen unrhyw newidiadau (o ganlyniad i gywirdeb y datganiadau yn y cyd-destun neu o ran enwi unigolyn), yna bydd carfan y Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â'r Prif Ddeisebydd i drafod unrhyw newidiadau posibl.

Ar ôl cael ei chymeradwyo, bydd y ddeiseb yn cael ei chyhoeddi ar dudalen Deisebau gwefan y Cyngor.

Os yw'ch deiseb yn cael ei gwrthod, bydd crynodeb o'r e-Ddeiseb a'r rheswm pam nad yw wedi cael ei derbyn yn cael eu cyhoeddi o dan adran 'Deisebau wedi'u gwrthod' ar y wefan. Ac eithrio deisebau sydd:

- yn ddifenwol, yn enllibus neu'n anghyfreithlon mewn ffordd arall;
- yn ymwneud ag achos sydd yn llysoedd y DU ar hyn o bryd neu'n ymwneud â mater y mae llys wedi cyhoeddi gwaharddeb mewn perthynas ag ef;
- yn sarhaus neu'n eithafol;
- yn gyfrinachol neu'n debygol o achosi trallod personol; neu'n
- jôc, yn hysbyseb neu'n wirion.

Bydd gwybodaeth am y rheswm dros wrthod y ddeiseb yn cael ei rhoi i'r Prif Ddeisebydd.

Os yw'r Cyngor yn gwthod eich deiseb neu rydych chi o'r farn nad yw'r Cyngor wedi delio â'ch deiseb yn briodol, cysylltwch â'r Gwasanaethau Democrataidd trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt ar dudalen 2.

Mae penderfyniad y Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â statws deiseb yn derfynol.

## HYRWYDDO'CH E-DDEISEB:

Tra bod y Cyngor yn cynnal e-Ddeisebau ar ei wefan, cyfrifoldeb y prif ddeisebydd yw hyrwyddo ei e-Ddeiseb.  Mae modd gwneud hyn trwy rannu dolen gwefan y Cyngor.

## LLOFNODI'CH E-DDEISEB

Mae hawl gan unrhyw un sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol lofnodi'r ddeiseb.

Mae modd gweld eich deiseb ar dudalen Deisebau y Cyngor – gweler dolen i'r dudalen, yma.

I lofnodi deiseb, rhaid i bobl sydd am lofnodi gofrestru ar wefan y Cyngor, a hynny at ddibenion gwirio. Mae manylion am gofrestru i'w gweld ar dudalen 7 y ddogfen yma.

Mae modd i lofnodwyr ddewis llofnodi'r fersiwn Gymraeg neu Saesneg o'r e-Ddeiseb.

Bydd angen i lofnodwyr glicio ar y ddolen '***Pori holl e-Ddeisebau presennol ac e-Ddeisebau wedi'u cwblhau***'

Bydd unrhyw ddeisebau byw ar gael ar y dudalen yma.

### eDdeisebau

Mae e-ddeiseb yn ddeiseb sy'n casglu llofnodion ar-lein. Mae hyn yn caniatáu i ddeisebau a gwybodaeth ategol fod ar gael i gynulleidfa lawer ehangach na deiseb bapur, draddodiadol.

Mae e-ddeisebau yn rhan o ymrwymiad parhaus y Cyngor i wrando a gweithredu ar farn y cyhoedd.

Bydd deisebau sy'n dod i law yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori ac fyddan nhw ddim yn ddarostyngedig i'r broses yn y cynllun deisebau.

Bydd deisebau yn ymwneud â cheisiadau cynllunio dan ystyriaeth yn parhau i gael eu trin o dan y broses bresennol ar gyfer deisebau cynllunio ac nid y broses uchod.

I gael cymorth i gyflwyno neu lofnodi e-ddeiseb, edrychwch ar ganllawiau Cyngor Rhondda Cynon Taf yma

Fel arall, mae modd i'r Cyngor dderbyn deisebau papur wedi'u llenwi, naill ai drwy'r post neu drwy ei roi i ni wyneb yn wyneb ym Mhencadlys y Cyngor.

Cliciwch yma i lawrlwytho templed deiseb bapur

*Dewiswch amrediad dyddiad cynharach isod i ddod o hyd i e-ddeisebau ac ymatebion gan y cyngor.*

- Cyflwyno eDdeiseb newydd
- Pori trwy'r holl e-ddeisebau cyfredol a'r rhai sydd wedi'u cwblhau
- Tanysgrifio i ddiweddariadau RSS

Nid oes unrhyw e-ddeisebau ar hyn o bryd

Dylai llofnodwyr glicio ar y ddeiseb sy'n berthnasol iddyn nhw.


**Nodwch nad oes modd i berson lofnodi'r un ddeiseb fwy nag unwaith gan ddefnyddio'r un cyfrif/cyfeiriad e-bost.**


Cliciwch ar 'Llofnodi e-Ddeiseb':




Ticiwch y blwch i roi'ch caniatâd i'r Cyngor gysylltu â chi mewn perthynas â'r ddeiseb a chliciwch ar 'Llofnodi'.

**Nodwch – dim ond i roi gwybod am gamau nesaf yr e-Ddeiseb y bydd y Cyngor yn anfon e-bost atoch chi.**




**Fyddwch chi ddim yn derbyn neges yn dweud eich bod chi wedi llofnodi e-Ddeiseb ond bydd y system yn rhoi gwybod a ydych chi wedi'i llofnodi yn barod trwy wirio'r rhestr o e-Ddeisebau agored:**

| Teitl | Ymatebwyr | Dyddiadau cau | Llofnodwyd? |
|---|---|---|---|
| Croesfan i gerddwyr | 1 | 10/04/2025 | Eisoes wedi llofnodi |

Fydd y wefan ddim yn datgelu enwau na chyfeiriadau llofnodwyr y ddeiseb. Bydd hi'n dangos cyfanswm y llofnodwyr, gan gydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a gofynion diogelu data y Cyngor.  Mae polisi'r Cyngor mewn perthynas â'r materion yma i'w weld ar y dudalen Deisebau.

## CWBLHAU'CH E-DDEISEB:

Pan fydd yr e-Ddeiseb yn cau, bydd y broses lofnodi ar-lein yn dod i ben a bydd rhestr o'r llofnodwyr yn cael ei llunio gan y Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wirio llofnodwyr yn ôl yr angen. Dylai deisebwyr sicrhau bod cyfeiriad a chod post dilys wedi'u cynnwys ar gyfer pob deisebydd.  Bydd y manylion yma'n cael eu hystyried wrth gael gwybod a oes digon o lofnodion gan bobl sy'n byw yn ardal Cyngor RhCT i arwain at yr ymatebion trothwy amrywiol isod.

## BETH FYDD YN DIGWYDD I DDEISEB AR ÔL EI CHYFLWYNO I'R CYNGOR?

Unwaith y bydd y Cyngor wedi derbyn deiseb, caiff ei chydnabod o fewn 5 diwrnod gwaith o'i derbyn.

Bydd ymateb y Cyngor i ddeiseb yn dibynnu ar yr hyn y mae deiseb yn gofyn amdano a faint o bobl sydd wedi'i llofnodi, ond mae modd iddo gynnwys y canlynol:

Manylion y trothwyon:

- **Haen 1** – Ar gyfer deisebau sy'n cynnwys rhwng 1 a 500 o lofnodion mae Cynllun Deisebau'r Cyngor yn darparu bod ymateb gan y Cyfarwyddwr / Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn cael ei roi i'r Prif Ddeisebydd.
- **Haen 2** – Ar gyfer deisebau sy'n cynnwys dros 500 o lofnodion mae Cynllun Deisebau'r Cyngor yn darparu bod ymateb gan yr Aelod perthnasol o'r Cabinet yn cael ei roi, a bod yr ymateb yma'n cael ei gyhoeddi ar dudalen we arbennig y Cyngor.
- **Haen 3** – Ar gyfer deisebau sy'n cynnwys dros 1000 o lofnodion (boed yn ddeiseb hybrid neu ar un ffurf benodol)  mae Cynllun Deisebau'r Cyngor yn darparu'r un peth â haen 2, ond cyfeirir at y ddeiseb er gwybodaeth yn unig yn rhan o agenda un o gyfarfodydd y Cyngor. Wrth gydnabod deisebau, mae modd i'r Cyngor benderfynu cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Os oes deiseb sy'n cynnwys dros 1000 o lofnodion ond nad yw'n bodloni holl ofynion y ddeiseb (e.e. does dim gwybodaeth am gyfeiriad er mwyn cadarnhau a yw llofnodwr yn drigolyn ardal Cyngor RhCT), yna bydd deiseb o'r fath yn derbyn ymateb haen 2 yn awtomatig.

Bydd y Cyngor yn darparu arweiniad clir i'r Prif Ddeisebydd o ran trothwy y ddeiseb a'r camau gweithredu nesaf.

Mae rhagor o arweiniad mewn perthynas â deisebau y cyfeirir atyn nhw mewn cyfarfod o'r Cyngor neu gyfarfod Pwyllgor Craffu (ymatebion haen 3) ar gael yma.

Cynllun Deisebau

Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus

Bydd deisebau yn ymwneud â cheisiadau cynllunio dan ystyriaeth yn parhau i gael eu trin o dan y broses bresennol ar gyfer deisebau cynllunio ac nid y broses uchod.

Fydd deiseb sy'n ddyblygiad neu bron yn ddyblygiad o ddeiseb arall mae'r Cyngor eisoes wedi'i derbyn ddim fel arfer yn cael ei hystyried o fewn cyfnod o 6 mis er y bydd yn nwylo swyddogion i benderfynu ar sail achosion unigol. Rydyn ni'n argymell eich bod chi'n gwirio manylion deisebau blaenorol ar y wefan cyn dechrau eich deiseb.

Bydd deisebau sy'n dod i law yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori ac fyddan nhw ddim yn ddarostyngedig i'r broses yn y cynllun deisebau.

# BETH MAE MODD I'M DEISEB EI GYFLAWNI?

Pan fyddwch chi'n cyflwyno deiseb i'r Cyngor, gall arwain at ddeilliannau cadarnhaol a newid, a llywio dadl. Gall ddod â mater at sylw'r Cyngor a dangos bod y cyhoedd yn cymeradwyo neu'n anghymeradwyo rhywbeth y mae'r Cyngor yn ei wneud yn gryf. Felly, mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn penderfynu newid neu adolygu polisi er enghraifft, cynnal cyfarfod cyhoeddus neu ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu barn ar y mater.

**A OES UNRHYW FFYRDD ERAILL I'R CYHOEDD FYNEGI EI FARN?**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnwys trigolion a rhanddeiliaid eraill yn rhan o'r broses ddemocrataidd, a adleisir yn Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus y Cyngor. Rydyn ni'n croesawu unrhyw adborth mewn perthynas â gwaith ac amcanion y Cyngor.

Mae rhai o'r ffyrdd eraill y mae modd i'r cyhoedd fynegi ei farn yn cynnwys:

Cysylltu â Chynghorydd Sir lleol

Cyflwyno cwyn trwy Weithdrefn Cwynion Gorfforaethol y Cyngor

Annerch y Cyngor / y Cabinet neu Bwyllgor Craffu

Cyfrannu at ymgynghoriadau statudol ac anstatudol.

**POLISI PREIFATRWYDD A RHEOLIADAU DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR)**

Mae angen y manylion rydych chi'n eu rhoi i ni er mwyn dilysu'ch cefnogaeth ond fyddan nhw ddim yn cael eu cyhoeddi ar y wefan.  Dyma'r un wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer deiseb bapur. Bydd y Cyngor yn cadw'r wybodaeth yma am 5 mlynedd. Ar ôl y cyfnod hwnnw, bydd yr wybodaeth yn cael ei dinistrio'n ddiogel.

**Cynllun Deisebau – Rhestr Termau**

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| ***Aelod Etholedig*** | Cynghorydd sy'n Aelod o Gyngor ac sy'n pleidleisio. |
| ***Aelod o'r Adain Weithredol*** | Y Cabinet, sy'n cynnwys Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelodau Gweithredol. Mae'r Cabinet yn gyfrifol am wneud polisïau yn Rhondda Cynon Taf ac mae'n gyfrifol am wneud nifer o'r penderfyniadau mawr ar sut mae'r Cyngor yn gwasanaethu'i drigolion. |
| ***Anghymedrol*** | Dangos diffyg rheolaeth. |
| ***Anghymesur*** | Rhy fawr neu'n rhy fach o gymharu â rhywbeth arall. |
| ***Cod Trefniadaeth Ysgolion*** | Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn ddogfen o ofynion a chanllawiau statudol y mae rhaid i gyrff priodol eu dilyn yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae'r Cod wedi'i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru ac mae'n berthnasol i gyrff priodol megis Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ac hyrwyddwyr eraill. |
| ***Cyfrinachol*** | Cadw gwybodaeth yn gyfrinach a pheidio â'i datgelu na'i rhannu ag unrhyw un arall. |
| ***Cynnig*** | Gofyn bod eitem o fusnes yn cael ei thrafod a bod pleidlais arni mewn cyfarfod o'r Cyngor. |
| ***Cynnwys dadleuol o safbwynt gwleidyddol*** | Anghytundeb cryf mewn perthynas â gwleidyddiaeth. |
| ***Deddf Diogelu Data*** | Deddf Diogelu Data 2018 sy'n gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn y DU. |
| ***Deiliad Portffolio'r Cabinet*** | Mae portffolio personol o gyfrifoldeb wedi'i neilltuo i bob Aelod o'r Cabinet er mwyn iddyn nhw weithredu'n "hyrwyddwyr" corfforaethol wrth fwrw ymlaen â themâu datblygu trawsbynciol pwysig ar draws holl wasanaethau a meysydd gweithgarwch y Cyngor. |
| ***Deiseb*** | Cais ysgrifenedig ffurfiol, sydd fel arfer wedi'i lofnodi gan nifer o bobl, yn apelio i awdurdod mewn perthynas ag achos penodol. |
| ***Difenwol*** | Bwriadu gwneud niwed i rywun trwy ddweud neu ysgrifennu pethau drwg neu anwir amdano. |

| | |
|---|---|
| ***Dilysu*** | Y broses o wirio neu brofi cywirdeb rhywbeth. |
| ***Dod i ben*** | Yn gorffen. |
| ***Dyblygiad*** | I wneud copi union o rywbeth. |
| ***e-Ddeiseb*** | Deiseb electronig sy'n casglu llofnodion ar-lein. |
| ***Enllib / Enllibus*** | Datganiad anwir sy'n gwneud drwg i enw da rhywun. |
| ***Gwaharddeb*** | Gorchymyn swyddogol wedi'i roi gan lys sy'n mynnu bod rhywbeth yn cael ei wneud neu ddim yn cael ei wneud. |
| ***Gwybodaeth Sensitif yn Fasnachol*** | Data sy'n unigryw i'r cwmni ac nad yw eisoes ar gael i'r cyhoedd. |
| ***Hybrid*** | Rhoi dau neu ragor o bethau at ei gilydd. |
| ***Llofnodwr*** | Person, gwlad neu sefydliad sydd wedi llofnodi cytundeb swyddogol. |
| ***Prif Ddeisebydd*** | Person sy'n cyflwyno deiseb i awdurdod mewn perthynas ag achos penodol. |
| ***Pryfocio*** | Achosi dicter neu ymateb cryf arall, yn enwedig yn fwriadol. |
| ***Pwyllgorau Rheoleiddio*** | Mae Pwyllgorau Rheoleiddio'r Cyngor yn cael eu penodi gan y Cyngor ac yn cyflawni swyddogaethau penodol a roddir iddyn nhw o dan bwerau dirprwyedig. |
| ***Rhegfeydd*** | Iaith gableddus neu anweddus. |
| ***Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)*** | Rheoliad yr Undeb Ewropeaidd ar breifatrwydd gwybodaeth yn yr Undeb Ewropeaidd ac Ardal Economaidd Ewropeaidd. |
| ***Rhyddid Gwybodaeth*** | Rhyddid person neu bobl i gyhoeddi a chyrchu gwybodaeth. |
| ***Swyddog Priodol*** | Swyddog wedi'i benodi gan y Cyngor i gyflawni swyddogaeth benodol fel sydd wedi'i nodi yn adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. |
| ***Trothwy*** | Y lefel lle mae rhywbeth yn dechrau digwydd neu gael effaith. |
| ***Uned Busnes y Cyngor*** | Carfan o Swyddogion y Cyngor sy'n sicrhau bod cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu rheoli'n effeithiol. |
| ***Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu*** | Mae'r Pwyllgor yma'n cydlynu gwaith y pedwar Pwyllgor Craffu, ac mae'n gyfrifol am gymeradwyo'r Rhaglenni Gwaith a gaiff eu llunio gan y tri Phwyllgor Craffu thematig, er mwyn cydlynu'r holl raglenni gwaith fel bod modd eu |

| | |
|---|---|
| | cyflawni'n effeithlon a sicrhau eu bod nhw'n canolbwyntio ar ddeilliannau. Os oes rhywbeth sy'n codi o fewn cylch gwaith mwy nag un Pwyllgor Craffu, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-2027 yn penderfynu pa Bwyllgor ddylai fynd i'r afael â'r mater. |
| ***Ymgynghoriad Statudol*** | Y gofyniad cyfreithiol i ymgynghori ar gynnig. |
| ***Yn nwylo*** | Y rhyddid i benderfynu beth ddylai gael ei wneud mewn sefyllfa. |

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor, neu i drafod deiseb bosibl, cysylltwch â:

**Gwasanaethau Democrataidd:**

Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd

Uned Busnes y Cyngor, Swyddfa'r Trydydd Llawr,

2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

neu e-bostiwch Uned Busnes y Cyngor:

BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk

